

Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Cyfnod Allweddol 2

Gweithgaredd 2b: I ble awn ni?

Amcan Dysgu

Helpu i ddatblygu sgiliau ymchwilio a chynllunio.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Cysylltiadau

- Cyfathrebu

Trefniadaeth

- Cynllunio
- Ymchwil – deall yr amgylchedd

Gweithgareddau dysgu

Trafod y syniadau a gafodd eu creu yng Ngweithgaredd 1.

Gofynnwch y cwestiwn “Ble allen ni fynd i ddysgu mwy am y syniad rydyn ni wedi ei ddewis?”

Trafodwch ymweliad a grŵp â menter leol. Gallai'r ymweliad ymwneud â busnes sy'n darparu cynnyrch / gwasanaeth tebyg neu fod yn elusen neu'n gorff y bydd y fenter yn codi arian amdani.

Mewn grwpiau, gan ddefnyddio cyfeiriaduron lleol, gwefannau, papurau newydd, map o'r ardal leol ac ati, mae'r disgyblion yn ymchwilio i fentrau lleol sy'n berthnasol i'w syniad prosiect nhw o fewn eu hardal.

Mae'r grwpiau yn cyflwyno eu canfyddiadau i'r dosbarth ac mae penderfyniad dosbarth yn cael ei wneud.

Fel gweithgaredd llythrennedd, mae'r disgyblion yn ysgrifennu llythyron a/neu'n gwneud galwad ffôn â'r fenter a gafodd ei dewis i drefnu ymweliad.

Mae gan Prospects Cazbah swyddogion Ymgysylltu Partneriaeth a fydd efallai'n gallu cynorthwyo'r ysgol i gysylltu â busnes lleol.

Mae'r disgyblion yn paratoi cwestiynau i'w gofyn yn ystod yr ymweliad.

Gweithgaredd 2b: I ble awn ni?

Cyfnod Allweddol 2

Canlyniad dysgu

Bydd y disgyblion yn dechrau datblygu sgiliau ymchwilio a chynllunio syml.

Adnoddau mae eu hangen

- Map o'r ardal leol
- Cyfeiriaduron lleol
- Papurau newydd
- TGCh

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

1. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Llythrennedd

Llafaredd ar draws y cwricwlwm

Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau;

- Gwranddo
- Cydweithredu a thrafod.

Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm

- Trefnu syniadau a gwybodaeth
- Ysgrifennu'n gywir.

Darllen ar draws y cwricwlwm

- Lleoli, dethol a defnyddio gwybodaeth
- Ymateb i'r hyn sydd wedi cael ei ddarllen.

2. ABCh

- Deall yr amrediad o swyddi mae pobl yn eu gwneud yn eu cymuned.

3. Daearyddiaeth

- Astudio eu hardal leol
- Cynnal gwaith maes i arsylwi ac ymchwilio i leoedd a phrosesau go iawn.

4. Cwricwlwm Cymreig

